Gwybodaeth i gyflogwyr bach

Am y daflen ffeithiau hon

Mae'r daflen ffeithiau hon yn cynnwys gwybodaeth i bobol sy'n cyflogi un neu fwy o bobol ond llai na phump. Os oes gennych llai na phump o bobol yn gweithio i chi, cyfeirir atoch fel **cyflogwr meicro**. Fe allwch chi fod yn gyflogwr meicro os ydych chi'n talu rhywun i weithio mewn siop neu weithle arall, ond fe allwch chi fod yn gyflogwr meicro hefyd os oes rhywun yn gweithio yn eich cartref – er enghraifft nani, gofalydd, glanhawr neu gynorthwyydd personol.

Sut ydw i'n gwybod os ydw i'n gyflogwr

Mae'n bwysig iawn i wybod os ydych chi'n gyflogwr ai peidio oherwydd fe fydd gennych gyfrifoldebau cyfreithiol tuag at y bobol sy'n gweithio i chi. Nhw fydd eich gweithwyr chi a bydd yn rhaid i chi sicrhau eu bod yn derbyn hawliau arbennig megis tâl salwch a thâl gwyliau. Efallai y bydd yn rhaid i chi gofrestru ar gyfer treth incwm a chyfraniadau yswiriant cenedlaethol hefyd.

Os ydych chi'n gyflogwr, fe fydd gennych gytundeb cyflogaeth gyda'ch gweithiwr hyd yn oed os na fydd hwn yn ysgrifenedig. Bydd hwn yn cynnwys beth bynnag y byddwch chi a'ch gweithiwr wedi cytuno arno rhyngoch chi. Mae'n well os bydd y cytundeb yn ysgrifenedig er mwyn i'r ddau ohonoch fod yn glir ynglŷn â'ch hawliau a chyfrifoldebau. Hefyd, mae'n rhaid i chi roi datganiad ysgrifenedig o'u prif delerau ac amodau i'ch gweithwyr o fewn dau fis i ddechrau gweithio i chi. Mae'n rhaid i chi a'ch gwethiwr gadw at ba delerau ac amodau bynnag y cytunoch chi arnynt.

Sut bynnag, efallai na fydd rhai pobol sydd yn cael eu talu gennych yn weithiwr i chi. Efallai eu bod yn hunan-cyflogedig, yn gweithio i asianateth, neu'n gweithio i chi'n achlysurol. Ni fydd gennych gytundeb cyflogaeth gyda'r math yma o bobol ac ni fydd gennych yr un cyfrifoldebau cyfreithiol tuag atynt.

Sut mae dweud os yw rhywun yn weithiwr i chi
Mae yna reolau i'ch helpu i benderfynu os yw rhywun yn weithiwr i chi ai peidio. Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i'r holl swyddi a restrir ar y daflen ffeithiau hon. Mae rhywun yn debygol o fod yn weithiwr i chi os yw un neu fwy o'r canlynol yn berthnasol**:**

- mae'n rhaid i chi ddod o hyd i waith iddynt a dweud wrthynt beth i'w wneud a sut i'w wneud, hyd yn oed os ydynt yn cael eu gadael i weithio ar eu pennau eu hunain
- rydych chi'n talu cyfanswm rheolaidd o arian iddynt yn wythnosol neu'n fisol yn hytrach nag ar ôl iddynt orffen rhyw waith neilltuol
- mae'n rhaid i **chi** ddod o hyd i rywun arall i wneud y gwaith os na allan nhw ei gyflawni am ryw reswm, er enghraifft os byddan nhw bant yn sâl. Ond os bydd yn rhaid iddyn **nhw** ddod o hyd i rywun arall i wneud y gwaith, er enghraifft, ffrind neu is-gontractwr, golyga hyn mwy na thebyg eu bod yn hunan cyflogedig.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- Chi sy'n gyfrifol am ddarparu y rhan fwyaf o'r offer, peiriannau a deunydd i wneud y gwaith.

Gofalwyr
Gofalydd yw rhywun sy'n darparu gofal personol a chefnogaeth yn eich cartref, fel arfer am eich bod yn sâl, yn anabl, neu â phroblem iechyd meddwl. Fe allan nhw eich helpu gyda'r glanhau, y coginio, siopa a gofal personol megis ymolch a gwisgo. Gall gofalydd fod yn un sy'n cael ei dalu neu bod yn un ddi-dal.

Os oes gennych ofalydd, nid chi fydd eu cyflogwr os nad ydych yn eu talu am eu gwaith. Yn aml bydd y math hwn o ofalydd yn aelod o'r teulu, yn ffrind neu gymydog.

Os telir eich gofalydd, gallant gael eu cyflogi'n uniongyrchol gennych chi, gan yr awdurdod lleol neu gan asiantaeth.

Efallai eich bod yn gyflogwr i'ch gofalydd os ydych wedi dod o hyd i waith iddynt ac yn gallu dweud wrthynt beth i'w wneud a sut i'w wneud. Efallai eich bod yn gyflogwr iddynt hefyd os ydych yn eu talu'n uniongyrchol am eu gwaith, hyd yn oed os rhoddwyd arian i chi gan eich awdurdod lleol i'w talu **(taliadau uniongyrchol)**

Gall fod yn anodd penderfynu os yw gofalydd yn cael ei gyflogi gennych chi, awdurdod lleol neu asiantaeth. Os nad ydych yn siwr os mai chi yw'r cyflogwr fe ddylech gael cyngor.

Gweithwyr domestig
Gweithiwr domestig yw rhywun a gyflogir i weithio yn eich cartref i gyflawni tasgau megis glanhau, coginio a golchi. Mae gweithwyr domestig yn cynnwys **cogyddion** a **gwragedd cadw ty.**

Os yw person yn cael ei dalu am wneud gwaith i chi'n unig, mae'n debyg eu bod yn weithiwr i chi. Sut bynnag, fe allan nhw ddal i fod yn weithwyr i chi hyd yn oed os ydyn nhw'n gweithio i bobol eraill yn ogystal â chi.

Os oes gennych **lanhawr**, fe allan nhw fod yn weithiwr i chi, ond fe allan nhw hefyd fod yn hunan cyflogedig, yn gweithio i chi'n achlysurol neu weithio i asiantaeth

Os oes gennych **arddwr**, mae'n anhebygol eu bod yn weithiwr i chi, ac eithrio eu bod yn gweithio i chi'n unig.

Nid yw gweithwyr domestig yn cael eu hamddiffyn gan yr un deddfau iechyd a diogelwch â gweithwyr eraill. Nid oes cyfyngiad ar y nifer o oriau y gallant weithio, ond mae ganddynt hawl i gael egwyl i orffwys yn wythnosol ac yn ddyddiol.

Nanis, au pairs a gofalwyr plant
Os oes nani gennych, mwy na thebyg fe fyddan nhw'n weithiwr i chi, er fe allan nhw fod yn hunan cyflogedig os ydyn nhw'n gweithio i nifer o gartrefi gwahanol. Os ddaethoch chi o hyd i'ch nani trwy asiantaeth, fe allan nhw fod yn weithiwr i'r asiantaeth yn hytrach na chi. Bydd hyn yn dibynnu ar bwy sy'n gyfrifol am ddweud wrthynt pa waith i'w gyflawni.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Au pair yw rhywun sy'n byw yng nghartref y teulu ac yn helpu gyda thasgau'r cartref a gofal plant yn rhan amser yn gyfnewid am brydau bwyd, llety ac arian poced. Fel arfer fe ddowch o hyd i au pair trwy asiantaeth, ond fe allan nhw fod naill ai yn weithiwr i chi neu'n weithiwr i'r asiantaeth. Bydd hyn yn dibynnu ar bwy sy'n gyfrifol am ddweud wrthynt pa waith i'w gyflawni.

Mae gofalwyr plant yn gweithio o'u cartrefi hwy eu hunain ac fel arfer maen nhw'n hunan cyflogedig.

Os nad ydych yn siwr os yw rhywun yn weithiwr i chi ai peidio, fe ddylech gael cyngor oddi wrth ymgynghorydd profiadol.

Pa gyfrifoldebau sydd gennych fel cyflogwr?

Os ydych chi'n gyflogwr meicro, yn gyffredinol mae gennych yr un cyfrifoldebau cyfreithiol â chyflogwyr eraill. Golyga hyn:

- **na ddylech ddiswyddo** eich gweithiwr am reswm annheg
- y dylech sicrhau fod eich gweithiwr yn cael y **tâl salwch** y mae ganddynt hawl iddo
- y dylech sicrhau fod eich gweithiwr yn derbyn yr hawliau sydd ganddynt o safbwynt **mamolaeth**, **tadolaeth** a **mabwysiadu**.
- y dylech roi 5.6 wythnos o **wyliau gyda thâl** y flwyddyn i'ch gweithwyr, felly mae gan rywun sy'n gweithio pum diwrnod yr wythnos yr hawl i 28 diwrnod o wyliau gyda thâl. Os yw rhywun yn gweithio ar sail rhan amser, mae ganddynt yr hawl i nifer cyfwerth o wyliau gyda thâl
- **na ddylech wahaniaethu** yn erbyn eich gweithwyr oherwydd eu hil, rhyw, anabledd, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, croesrywioldeb, beichiogrwydd neu famolaeth, priodas neu bartneriaeth sifil neu oed
- y dylech drefnu **addasiadau rhesymol** yn eich cartref neu weithle er mwyn caniatau i berson anabl i gyflawni eu gwaith
- y dylech ddilyn rheoliadau **iechyd a diogelwch** yn y gwaith. Golyga hyn eich bod yn gyfrifol am iechyd, diogelwch a lles eich gweithiwr.
- fod yn rhaid i chi gael **yswiriant atebolrwydd cyflogwr** i warchod eich gweithiwr os caiff ei anafu wrth weithio i chi.
- fod yn rhaid i chi dalu **isafswm cyflog cenedlaethol** i'ch gweithiwr. Efallai na fydd gan weithiwr domestig hawl i isafswm cyflog os yw'n byw gyda chi ac yn cael ei drin fel un o'r teulu.
- fod yn rhaid i chi gyfyngu ar gyfartaledd wythnos waith eich gweithiwr i 48 awr, ac eithrio eu bod wedi cytuno'n ysgrifenedig i weithio mwy na hyn. Nid yw'r cyfyngiad hwn yn berthnasol i weithwyr domestig mewn cartref preifat.
- fod yn rhaid i chi sicrhau fod gan eich gweithiwr yr hawl i weithio ym Mhrydain cyn iddyn nhw ddechrau gweithio. Mae'n drosedd i gyflogi rhywun sydd heb yr hawl i weithio'n gyfreithiol ym Mhrydain. Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan y Swyddfa Gartref yn www.ind.homeoffice.gov.uk/lawandpolicy/preventingillegalworking/ neu ffoniwch eu llinell gymorth i gyflogwyr ar 0845 010 66707.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os yw'ch gweithiwr yn mynd i weithio gyda phlant neu oedolion bregus, efallai y bydd yn rhaid i chi eu gwirio trwy'r **Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB**) neu yn yr Alban **Datgelu'r Alban**.Efallai y bydd yn rhaid i chi wneud hyn, er enghraifft, os ydych wedi dod o hyd i nani eich hun, yn hytrach na thrwy asianateth. Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan www.crb.gov.uk neu cysylltwch â Llinell Wybodaeth CRB ar 0870 9090811. Yn yr Alban ewch i wefan www.disclosurescotland.co.uk neu cysylltwch â'r llinell gymorth ar 0870 609 6006.

Cyfrifoldebau treth ac yswiriant cenedlaethol
Os ydych chi'n talu mwy na £146 yr wythnos i'ch gweithiwr (**trothwy enillion** y gweithiwr) rhaid i chi:

- gofrestru fel cyflogwr gyda **Chyllid a Thollau EM** (HMRC)
- weithredu'r system **Talu Wrth Ennill (TWE)**. Golyga hyn fod yn rhaid i chi ddidynnu treth incwm a chyfraniadau Dosbarth 1 yswiriant cenedlaethol o'r gyflog rydych yn ei roi i'ch gweithiwr a'i anfon at HMRC.
- gadw cofnodion o'r didyniadau ac anfon manylion at HMRC bob blwyddyn
- roi slip cyflog ysgrifenedig i'ch gweithiwr bob diwrnod cyflog, sy'n dangos eu cyflog yn ei grynswth ynghyd â faint a ddidynwyd ar gyfer treth ac yswiriant cenedlaethol.

Rydych yn gyfrifol am gyfrifo cyflog eich gweithiwr a gwneud y didyniadau iawn ar gyfer treth ac yswiriant cenedlaethol.
Mae'n anghyfreithlon trefnu cytundeb cyflogaeth mewn ffordd sy'n golygu y gallwch chi osgoi talu treth ac yswiriant cenedlaethol, er enghraifft, trwy dalu 'arian parod' i'ch gweithwyr.
Mae yna Gynllun Didynnu TWE syml ar gael i gyflogwyr meicro sy'n cyflogi gweithwyr domestig sy'n ennill uwch na chyfanswm arbennig. Er mwyn gwybod mwy, ewch i www.hmrc.gov.uk/simple_deduction/index.htm neu ffoniwch: 0845 6070143.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Cyllid a Thollau EM (HMRC)
Mae HMRC yn cynnal llinell gymorth i gyflogwyr:

- Os ydych chi wedi bod yn gyflogwr am llai na thair blynedd cysylltwch â: 0845 607 0143
- Os ydych chi wedi bod yn gyflogwr am fwy na thair blynedd cysylltwch â: 0845 714 3143.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Contractau Cyflogaeth
- Hawliau Sylfaenol yn y gwaith
- Rhestr Wirio Hunan Gyflogaeth

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith.

Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 6 Ebrill 2012, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr